# **‘Cymerwch y peth o ddifri’:** Profiadau Plant o Hiliaeth mewn Ysgolion Uwchradd

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Comisiynydd Plant Cymru



Rocio Cifuentes yw Comisiynydd Plant Cymru.

Swydd Rocio yw i wneud yn siwr bod holl blant a phobl ifanc Cymru yn cael eu hawliau.
Hawliau plant yw'r pethau sydd angen arnoch chi i dyfu fyny'n teimlo'n hapus, iach a diogel.

Mae gan bob plentyn yr hawl i addysg a'r hawl i gael eu cadw'n ddiogel.

Ond mae Rocio a'r tîm wedi bod yn poeni bod rhain plant a phobl ifanc wedi profi hiliaeth yn yr ysgol.

Hiliaeth yw trin person yn wahanol oherwydd lliw ei groen, ei grefydd, ei genedligrwydd, neu ddiwylliant.

Roedd Rocio a'r tîm eisiau clywed mwy am brofiadau pobl ifanc.

**170**

Fe wnaeth Rocio a'r tîm siarad gyda tua 170 o bobl ifanc ar draws Cymru, a gyda athrawon a oedolion arall.

# Beth wnaethon ni ddarganfod

Fe ddywedodd llawer o bobl ifanc eu bod nhw wedi profi hiliaeth yn yr ysgol. Roedd llawer o bobl ifanc yn teimlo bod oedolion ddim yn cymryd nhw o ddifri pan roedd hyn yn digwydd.



# Mae pobl ifanc eisiau gweld:

Pobl yn gweithio mewn ysgolion yn cymryd hiliaeth mwy difrifol.

Pobl yn gweithio mewn ysgolion i wneud mwy os ydyn nhw'n gweld neu'n clywed am bobl ifanc yn profi hiliaeth

gwybod yn union beth i wneud i adrodd hiliaeth, a gwybod beth fydd yr ysgol yn gwneud os fydd hiliaeth yn cael ei adrodd

# Athrawon

Fe wnaeth athrawon ddweud wrthon ni bod nhw heb dderbyn llawer o hyfforddiant (training) am hiliaeth) a bod nhw'n teimlo bod delio gyda hiliaeth yn rhywbeth anodd.

Fe ddywedodd rhai athrawon eu bod nhw eisiau mwy o hyfforddiant a chefnogaeth (support) i'w helpu nhw i ddelio gyda hiliaeth mewn ysgolion.

# Y newidiadau rydyn ni eisiau gweld

Rydyn ni wedi gofyn i Lywodraeth Cymru wneud yn siwr bod ysgolion yn delio'n well gyda hiliaeth, a rhoi mwy o help i bobl sy'n gweithio mewn ysgolion, a gwneud yn siwr bod pob athro yn cael hyfforddiant.

Rydyn ni wedi gofyn i Lywodraeth Cymru gasglu gwybodaeth o ar draws Cymru am sawl person ifanc sy'n profi hiliaeth yn yr ysgol

Rydyn ni wedi gofyn i ysgolion wneud yn siwr fod pobl ifanc yn gwybod sut i adrodd hiliaeth a beth fydd yn digwydd ar ôl iddyn nhw adrodd.